



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Arweiniad atodol:
arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan
leoliadau nas cynhelir, ysgolion, UCD
a gwasanaethau addysg llywodraeth
leol i leihau effaith tlodi ar
gyrhaeddiad addysgol a lles**

Medi 2024

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg llywodraeth leol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.

Beth yw'r diben?

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar werthuso dulliau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?

Arolygwyr ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau nas cynhelir, a gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?

Medi 2024

Arweiniad atodol	1
1 Cyflwyniad	2
2 Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer ysgolion	3
MA1: Addysgu a Dysgu	5
MA2: Gofal, Cymorth a Lles	6
MA3: Dysgu a Gwella	8
Cydymffurfedd statudol	10
Arolygu ysgolion ag ymagwedd ysgolion cymunedol	11
3 Fframwaith arolygu ar y cyd Estyn ar gyfer lleoliadau nas cynhelir	13
Atodiad 1: Cwestiynau enghreifftiol	15
Atodiad 2: Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a diffiniad o incwm isel	19
Atodiad 3: Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)	21
Atodiad 4: Cyllid grant	25
Atodiad 5: Effaith cyllid grant	28
Atodiad 6: Defnydd cynhwysol o iaith	30
Atodiad 7: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol	31
Atodiad 8: Crynodeb Arolygu	32

Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy'n llywio gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy'n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Efallai bydd arolygwyr yn gweld y dogfennau arweiniad atodol yn ddefnyddiol wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg sy'n codi yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn holl gynhwysfawr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad, ac nid ydynt yn ddogfen derfynol a chynhwysfawr. Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o'n trefniadau arolygu. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd gadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull arolygu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r ystod gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad ar arolygu pa mor effeithiol y mae lleoliadau nas cynhelir, ysgolion a gynhelir, UCDAu a gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a / neu'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Mae Rhan 2 yr arweiniad yn darparu sylwadau a chwestiynau i arolygwyr ac mae wedi'i rhannu'n ddwy adran sy'n edrych ar 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu'. Mae'r adran ar 'Beth rydym yn ei arolygu' yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried ynghylch mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol o ran pob maes arolygu. Dylid darllen yr arweiniad ar y cyd â'r adran ar 'Sut rydym yn arolygu', sy'n esbonio'r dulliau y gallai arolygwyr eu defnyddio pan fyddant yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae Rhan 3 yr arweiniad yn darparu sylwadau a chwestiynau i arolygwyr sy'n cyd-arolygu lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg ran-amser.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wrth wraidd Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer addysg, 'Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb'. Ategir hyn gan ddwy egwyddor allweddol, sef:

- Mae angen dull system gyfan sy'n cynnwys addysg a gofal mewn plentyndod cynnar, addysg gynradd ac uwchradd ac addysg ôl-16, hyfforddiant a dysgu gydol oes.
- Pwysigrwydd canolog dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ac ysgolion yn mabwysiadu dull ysgolion cymunedol sy'n estyn allan i deuluoedd, ystod eang o asiantaethau a phob rhan o'r system addysg a dysgu gydol oes

Mae hyn yn cynnwys:

- Dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- Ysgolion cymunedol
- Addysg a gofal mewn plentyndod cynnar
- Iechyd a lles plant a phobl ifanc
- Datblygu dyheadau uchel trwy berthnasoedd cryf
- Y Cwricwlwm i Gymru a Chymwysterau
- Arweinyddiaeth
- Dilyniant Ôl-16

Wrth arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion, UCDAu a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried ym maes arolygu perthnasol y Fframwaith Arolygu.

Ar hyn o bryd, y ffordd i fesur anfantais y cytunwyd arni yn genedlaethol, mewn cyd-destun ysgol, yw p'un a yw disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fel arfer, mae ysgolion â chyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

ddim yn gwasanaethu cymunedau â lefelau uwch o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn cyfeirio at ddisgyblion o deuluoedd incwm isel, gan gydnabod nad yw pob disgybl sy'n byw mewn tlodi yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond yn profi effeithiau byw mewn tlodi. Mae hefyd yn adlewyrchu cyflwyno [Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd \(UPFSM\)](#). Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd yr holl ddisgyblion oedran cynradd yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024 yn ystod y tymor ysgol.

Dylid darllen yr arweiniad ar y cyd â'r ffynonellau gwybodaeth defnyddiol a restrir yn Atodiad 4.

2 Fframwaith Arolygu Estyn (ar gyfer ysgolion ac UCD)

Sut rydym yn arolygu

Dylai ein hymagwedd at arolygu pa mor dda y mae ysgolion yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol fod yn gyfannol ar draws pob maes arolygu ac yn rhan o unrhyw drafodaethau ynglŷn â thegwch. Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y camau gweithredu y mae ysgolion yn eu cymryd i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ym mhob maes arolygu.

Dylai timau arolygu:

- ystyried gofyn am samplau o lyfrau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n dod o aelwydydd incwm isel
- ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn monitro a gwerthuso cynnydd y grŵp hwn o ddysgwyr
- ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn gwerthuso effaith ei chamau gweithredu wrth hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion (gan gynnwys presenoldeb) gan gynnwys gwario'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Grant Datblygu Disgyblion
- gwerthuso presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- gofyn am fanylion unrhyw ymyriadau y mae'r ysgol yn eu cynnal i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Dylem ddechrau trwy sgwrsio gydag arweinwyr ysgolion ynglŷn â chyd-destun yr ysgol a lefelau anghenion economaidd-gymdeithasol yn y gymuned. Dylai penaethiaid ac uwch arweinwyr feddu ar ddealltwriaeth gref o gyd-destun y gymuned ysgol ehangach, gan gynnwys gwybodaeth am gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai hynny sydd mewn aelwydydd incwm isel. Dylent ddeall yr heriau sy'n wynebu'r disgyblion hyn yng nghyd-destun eu cymuned a sut mae'r rhain yn effeithio ar gynnydd a chyrraeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai hynny sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Fe allai fod yn ddefnyddiol i arolygwyr ystyried gwybodaeth arall am y gymuned leol, fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am gynnydd disgyblion

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim neu sy'n dod o deuluoedd incwm isel, yn enwedig canlyniad unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac asesiadau eraill perthnasol. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso dysgu'r disgyblion, ffurfio barn am gynnydd disgyblion o gymharu â'u manau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth asesu i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd angen i dimau arolygu gael at samplau o waith gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim neu'r rhai hynny o aelwydydd incwm isel yn benodol.

Dylai arolygwyr edrych ar dystiolaeth ynglŷn â grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft y rhai hynny sydd wedi'u seilio ar gyrhaeddiad neu grwpiau o ddisgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth arbenigol / darpariaeth oddi ar y safle. Dylai'r ysgol allu darparu gwybodaeth am wasgariad disgyblion sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim / sy'n dod o deuluoedd incwm isel ar draws gwahanol grwpiau disgyblion neu ddsbarthiadau.

Bydd angen i arolygwyr gyfarfod ag unrhyw staff sy'n gyfrifol am waith ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i gael gwybod am y cymorth maent yn ei ddarparu i ddisgyblion sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim ac sy'n dod o deuluoedd incwm isel. Dylent drafod sut maent yn sefydlu perthynas waith gadarnhaol â theuluoedd a'r gymuned. Dylai'r cyfarfodydd hyn hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am y mathau o ymyrraeth a chymorth a ddarperir a'r effaith maent yn ei chael ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.

Os yw'r darparwr yn gweithio gyda thimau amlasiantaethol a grwpiau cymunedol eraill, dylai'r tîm arolygu drefnu i gyfarfod â grŵp ffocws o weithwyr proffesiynol i werthuso effaith y gwaith hwn.

Os oes llywodraethwr sy'n gyfrifol am effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles, dylai'r tîm arolygu geisio cyfarfod ag ef.

Gweler hefyd '[Sut rydym yn arolygu – 2024: Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion \(llyw.cymru\)](#)'

Beth rydym yn ei arolygu

Yn ein fframwaith arolygu newydd (2024-2030), mae tlodi'n llinyn sy'n treiddio trwy bob maes arolygu. (Gweler '[Beth rydym yn ei arolygu 2024-2030](#)').

Dylai arolygwyr sicrhau bod gwerthusiad o'r tri maes arolygu'n cynnwys ystyried y deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai y mae tlodi'n eu rhwystro rhag dysgu. **Dylai timau arolygu sicrhau bod dystiolaeth ategol ym mhob maes arolygu'n cyfleu'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr adrodd ar waith yr ysgol wrth liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.**

Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu
--

Pa mor effeithiol y mae cwricwlwm, addysgu a dulliau asesu'r ysgol / UCD yn cefnogi pob dysgwr, gan gynnwys y dysgwyr hynny ag Anghenion Dysgu

Ychwanegol (ADY) a dysgwyr y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith niweidiol arnynt, i:

- **ddysgu a gwneud cynnydd**
- **datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth**
- **datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu**
- **datblygu eu medrau Cymraeg**

Bydd angen i werthusiadau o gynnydd disgyblion y mae tlodi'n cael effaith niweidiol arnynt ystyried y wybodaeth sydd ar gael am eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Bydd gwerthusiadau'n ystyried eu cyraeddiadau a'u cyflawniadau yn gysylltiedig â nodau dysgu cytunedig ac effaith unrhyw ymyriadau sy'n cynorthwyo'r grŵp hwn o ddisgyblion i wneud cynnydd o'u manau cychwyn unigol.

Dylai arolygwyr ystyried dadansoddiad yr ysgol o berfformiad a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael pryddau ysgol am ddim a'r rhai hynny o aelwydydd incwm isel dros gyfnod, sef y tair blynedd diwethaf, fel arfer. Dylai arolygwyr ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â'u tystiolaeth eu hunain o arsylwadau gwersi, trafodaethau â'r disgyblion hyn, os yw'n briodol, a chraffu ar eu gwaith ysgrifenedig, ymarferol a digidol.

- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu o'u manau cychwyn unigol?
- Sut mae cyfraddau cwblhau cyrsiau a chymwysterau ar gyfer disgyblion y mae tlodi'n effeithio arnynt yn cymharu â rhai dysgwyr eraill? Sut mae addysgu a'r cwricwlwm yn sicrhau bod y grŵp hwn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag anawsterau bylchau mewn dysgu a chwricwlwm a ailadroddir ar gyfer disgyblion sydd wedi newid lleoliad sawl gwaith?
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion o ran manau cychwyn unigol?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer cam nesaf dysgu a bywyd? Er enghraifft, annibyniaeth, hunanofal neu reoli arian.
- A yw'r dulliau addysgu a ddefnyddir yn llwyddo i ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion?
- A yw ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol â chwarae a dysgu annibynnol y disgyblion i ddatblygu eu medrau ar lefel addas?
- Pa mor effeithiol yw'r defnydd o sesiynau unigol / grŵp wedi'u targedu ar gyfer disgyblion?
- I ba raddau y mae addysgu'n ystyried anghenion disgyblion unigol?
- A yw'r gwaith yn briodol o heriol i'r holl ddisgyblion, gan ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol?
- I ba raddau y mae addysgu'n gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion?
- A oes gan y staff ddisgwyliadau uchel ac a ydynt yn darparu gwaith heriol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion?
- A yw'r staff yn rhoi adborth mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r disgyblion? A yw'r

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

adborth hwn yn bodloni eu hanghenion unigol?

- I ba raddau y mae'r disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau ystyrion sy'n dangos dealltwriaeth o'u perfformiad eu hunain a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella?

Enghreiffiau adrodd a thystiolaeth ategol:

Lle y bo'n bosibl, dylai arolygwyr geisio cyfleu eu canfyddiadau trwy ymagwedd achos ac effaith, gan gysylltu'r ddarpariaeth â chynnydd disgyblion.

'Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd ar gyflymdra sy'n debyg i'w cyfoedion. Mae hyn o ganlyniad i'r addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel a gaiff pob disgybl.'

'Mae ymagwedd ysgol gyfan at fynd i'r afael â thlodi a sicrhau bod tegwch i bawb. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o'u manau cychwyn.'

'Mae'r arweinwyr yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn deall yr heriau sy'n eu hwynebu. Mae ymagwedd sensitif yr ysgol at sicrhau lles disgyblion a chymorth i deuluoedd, ynghyd â chwricwlwm cyfoethog sy'n ennyn diddordeb, ac addysgu o ansawdd uchel, yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf.'

'Mae profiadau dysgu ar draws yr ysgol o ddiddordeb i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae disgyblion o bob gallu'n gwneud cynnydd da.'

Maes Arolygu 2: Gofal, cymorth a lles

Pa mor effeithiol yw'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol / UCD wrth sicrhau bod yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr hynny ag ADY a dysgwyr y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith niweidiol arnynt:

- yn ddiogel
- yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg

Presenoldeb

Dylai arolygwyr roi sylw penodol i gyfraddau presenoldeb ac ymgysylltu'r disgyblion hyn, ac adrodd ar y rhain trwy eithriad, h.y. lle mae tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gryf iawn neu os yw wedi gwella neu ddirywio yn sylweddol. Dylent ystyried unrhyw amrywiadau nodedig rhwng presenoldeb y disgyblion hyn a disgyblion eraill. Dylent ganolbwyntio'n benodol ar gyfradd absenoldebau parhaus ac ystyried faint o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / y rhai o aelwydydd incwm isel sydd â chyfraddau absenoldeb ymhell uwchlaw disgyblion eraill yn yr ysgol. Dylai arolygwyr ystyried cyfraddau gwaharddiadau ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am

ddim a grwpiau eraill o ddisgyblion yn yr ysgol. Wrth ystyried cyfraddau presenoldeb disgyblion y mae tlodi'n cael effaith niweidiol arnynt, mae'n bwysig ystyried ffactorau fel effaith digwyddiadau yng nghartref y teulu a faint o gymorth y mae'r ysgol yn ei ddarparu i helpu'r disgyblion a'u teuluoedd i oresgyn unrhyw rwystrau rhag presenoldeb da.

Wrth werthuso cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu, dylai arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth o wersi, craffu ar waith, trafodaethau gyda disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / y rhai o aelwydydd incwm isel, ac ystyried eu hymgysylltiad yn ystod amser cinio, clybiau ar ôl yr ysgol a gweithgareddau sy'n ymestyn eu dysgu a'u profiad. Dylent roi sylw penodol i ddyheadau disgyblion.

- O ran disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, mae'n bwysicach ystyried eu presenoldeb gwell dros amser. Mewn llawer o achosion, bydd gan y disgyblion hyn hanes presenoldeb gwael ac mae'n bosibl y byddant wedi mynychu sawl ysgol wahanol. Sut mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai hynny o aelwydydd incwm isel yn cymharu â rhai disgyblion eraill?
- A yw disgyblion â phresenoldeb gwael yn gwella eu presenoldeb dros amser?
- A yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu gwydnwch wrth ddysgu?
- A yw'r holl ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymgysylltu'n dda â thasgau?
- A yw'r holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd wrth gymryd cyfrifoldeb am eu camau gweithredu a'u gwaith?
- Pa mor dda y mae strategaethau ymyrraeth yr ysgol, mentora neu hyfforddi unigolion neu gymorth penodol ar gyfer eu lles yn helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd yn eu dysgu?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar bopeth y gall ei gynnig?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o gefndiroedd incwm isel sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, hefyd?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o gefndiroedd incwm isel sy'n fwy abl?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn darparu mynediad at adnoddau nad ydynt ar gael i'r disgyblion hyn gartref o bosibl, er enghraifft mynediad at gyfrifiadur neu fan tawel i weithio?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i'w helpu i gynorthwyo eu plant yn dda a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn? (Yn benodol, dylai arolygwyr ystyried effaith rôl swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol neu'i debyg yn y gwaith hwn.)
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda'r gymuned a sefydliadau lleol i gefnogi anghenion a dyheadau'r disgyblion hyn?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ac asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i wneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft pan fydd disgyblion hŷn yn ystyried cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, y chweched dosbarth ac ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch?
- Beth yw ansawdd arweiniad a chynngor diduedd ar gyfer y disgyblion hyn, a sut mae hyn yn eu helpu i gyflawni eu nodau a'u dyheadau o ran dewisiadau gyrfa yn y dyfodol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu hyder, cymhelliant a hunan-barch disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?

Engbreiffiau adrodd a thystiolaeth ategol:

'Mae gan y staff berthynas gadarnhaol â theuluoedd ac maent yn gweithio gyda nhw mewn modd sensitif i ddarparu cymorth i oresgyn unrhyw rwystrau rhag presenoldeb rheolaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliant yng nghyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn achos pryder o hyd.'

'Mae'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddod yn aelodau o ystod o bwyllgorau llais disgyblion a gwneud penderfyniadau am sut i wella'r ysgol.'

'Agwedd arbennig o gryf ar waith yr ysgol yw ei darpariaeth feithringar. Mae staff medrus yn monitro lles y disgyblion ac yn darparu cymorth o ansawdd uchel pan fydd angen. Mae sesiynau a gynlluniwyd yn ofalus yn bodloni anghenion unigol disgyblion bregus, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o emosiynau, yn ffurfio cyfeillgarwch ac yn cynyddu eu hunan-barch yn llwyddiannus trwy'r cymorth hwn.'

Maes arolygu 3: Arwain a gwella

Pa mor effeithiol y mae'r arweinwyr yn:

- **datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob dysgwr**
- **amlygu a mynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella, rheoli a llywodraethu**
- **sicrhau bod dysgu proffesiynol yn helpu'r ysgol i wella ac yn galluogi'r holl staff i gyflawni eu rolau'n effeithiol**
- **rheoli adnoddau'r ysgol / UCD**

Dylai arweinwyr roi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. O dan faes arolygu 3, dylai arolygwyr ystyried y canlynol:

- Pa mor dda y mae arweinwyr ysgolion yn sefydlu diben a gweledigaeth glir i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn sefydlu diwylliant cryf o ddisgwyliadau uchel i bawb, a dealltwriaeth ar y cyd ar draws yr ysgol na fydd tlodi yn esgus am gyrhaeddiad isel?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- Pa mor effeithiol yw'r ymagwedd strategol a gweithredol at yr her hon?
- Pa mor benderfynol y mae arweinwyr yn canlyn pennaf les disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o gefndiroedd incwm isel?
- Pa mor dda y mae pob un o'r staff yn deall ac yn dangos eu cyfrifoldeb i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol?
- Pa mor drylwyr y mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff i gefnogi a gwella eu gwaith i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir am faterion strategol a gweithredol yn ystyried yr effaith y bydd unrhyw benderfyniad yn ei chael ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o gefndiroedd incwm isel, er enghraifft ar grwpiau disgyblion, defnydd o gyllid, defnydd o staff?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am y gymuned i nodi problemau posibl a allai effeithio ar ddisgyblion y mae tlodi'n effeithio arnynt, er enghraifft argaeledd gofal iechyd?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth yn strategol i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan roi ystyriaeth briodol i Genhadaeth ein Cenedl?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sefydlu partneriaethau cryf gyda theuluoedd, y gymuned ac amrywiaeth o asiantaethau a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i'w helpu i gyflawni eu potensial a chyflawni eu dyheadau?
- Pa mor dda mae arweinwyr yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi cyfnodau pontio di-dor o addysg gynnar trwodd i goleg a gyrfa?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol, gan gynnwys cyllid grant, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau mynediad at ddysgu proffesiynol ac ymchwil am sut orau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, ac yn gwerthuso effaith y dysgu hwn?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso strategaethau, mentrau a darpariaeth graidd yn systematig i ystyried eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel?

Enghreiffiau adrodd a thystiolaeth ategol:

'Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyd-destun y gymuned ysgol ehangach a'r heriau sy'n wynebu llawer o'u disgyblion a'u teuluoedd. Trwy hyn, ynghyd ag ymagwedd gyfannol yr ysgol at sicrhau lles disgyblion a chymorth i deuluoedd, darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n ennyn diddordeb, ac addysgu o ansawdd uchel, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel yn gwneud cynnydd cryf.'

'Mae'r pennaeth wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu gweledigaeth strategol glir a rennir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n gryf ar sicrhau profiadau addysgu a dysgu rhagorol fel hawl i bob disgybl.'

'Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r gymuned leol. Maent yn gweithio'n angerddol a gydag ymroddiad i ddiwallu'r anghenion hyn gan roi ystyriaeth briodol i reoli effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog lle mae gan bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ymdeimlad cryf o berthyn, ac yn datblygu'r hyder a'r medrau i ymgysylltu'n gadarnhaol â phrofiadau dysgu.'

'Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n rhwystro disgyblion rhag dysgu, gan gynnwys effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynnyddoedd Cynnar i ddarparu ymyriadau addysgu gwerth chweil ym maes llythrennedd a rhifedd. Mae arweinwyr yn olrhain effaith camau gweithredu'n ofalus ac yn addasu'r ddarpariaeth yn ofalus i fodloni anghenion disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion o aelwydydd incwm isel yn gwneud cynnydd cryf wrth ddysgu.'

'Mae'r ysgol yn rheoli a defnyddio'i hadnoddau i fynd i'r afael ag effaith tlodi yn dda, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro gwariant cynlluniedig yn erbyn meini prawf y grant yn dda. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth priodol â llythrennedd, rhifedd a lles ar gyfer ei dysgwyr bregus, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae llywodraethwyr yn rhoi sylw i gau'r bwloch o ran tlodi a nodi'r effaith gadarnhaol y mae siop dros dro'r ysgol yn ei chael ar gynorthwyo teuluoedd mewn angen ariannol.'

Cydymffurfedd statudol

Bydd yr arolygydd cofnodol yn nodi p'un a yw'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol o ran rheolaeth arweinwyr ar gyllid yr ysgol, gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion. Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r arolygiad, bydd y datganiadau canlynol yn cael eu cynnwys:

'Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, **gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion.**' neu,

'Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, **gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion.**'

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

Pan fydd defnydd yr ysgol o'r grant datblygu disgyblion yn llai effeithiol, bydd arolygwyr yn gwneud sylwadau ar hyn yng nghorff yr adroddiad ac fe allent ddewis rhoi argymhelliad yn gysylltiedig â hyn.

Arolygu ysgolion ag ymagwedd ysgolion cymunedol

Mae datblygu ymagwedd ysgolion cymunedol yn rhan annatod o'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. (Gweler [Ysgolion Bro \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#))

Fe allai arolygwyr wneud sylwadau ar agweddau ar yr ymagwedd hon yn rhan o'r dystiolaeth ategol ar gyfer meysydd arolygu 2 a 3 yn arbennig.

Enghreiffiau adrodd a thystiolaeth ategol:

'Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd Ysgolion Bro at gynorthwyo ei disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cefnogi ethos cwbl gynhwysol yr ysgol yn effeithiol.'

Bydd ysgolion ar wahanol gamau o ran datblygu eu hymagwedd.

Bwriad y pwyntiau canlynol yw cynorthwyo arolygwyr i werthuso'r camau y gallai ysgolion fod yn eu cymryd i ddatblygu eu hymagwedd:

- Pa mor dda y mae arweinwyr yn sefydlu diwylliant sy'n rhoi'r gymuned wrth wraidd bywyd yr ysgol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid strategol ac yn cydweithio ag ystod o asiantaethau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys rhieni mewn adolygu gweledigaeth, nodau a gwerthoedd yn barhaus, yn enwedig yn gysylltiedig â'r dull y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anfantais?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol, gan gynnwys trwy ddefnyddio cyllid grant, i fynd i'r afael ag annhegwch fel defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynnyddoedd Cynnar?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff am strategaethau i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel a'u teuluoedd?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio staff arbenigol i ymgysylltu â theuluoedd fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r rhai sydd â rôl mewn cefnogi ymgysylltu â'r gymuned a diwallu anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cydweithio ag amrywiaeth o bobl broffesiynol i ddarparu ymyrraeth gynnar ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel, er enghraifft trwy gysylltiadau agos â Dechrau'n Deg, ymwelwyr iechyd a lleoliadau nas cynhelir?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o bobl broffesiynol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

aelwydydd incwm isel, er enghraifft gweithwyr ieuencid, cynghorwyr gyrfaoedd, neu bobl broffesiynol o sefydliadau'r trydydd sector?

- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn ehangu ar ddefnyddio asedau'r ysgol ei hun trwy gydweithio â'r gymuned a hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr ysgolion yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn partneru ag asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau cymorth integredig sy'n targedu iechyd a lles, anghenion corfforol, gwybyddol a chymdeithasol?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso'u dull ysgol bro a'r effaith a gaiff ar fynd i'r afael ag anfantais?

3 Trefniadau arolygu ar y cyd Estyn (ar gyfer lleoliadau rheoleiddiedig nas cynhelir sy'n gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg ran-amser)

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg ran-amser a ariennir ar gyfer plant 3-4 oed. Mae'r canllawiau ar gyfer yr arolygiadau hyn ar gael yma:

[Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg a gofal mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu fframwaith arolygu ar y cyd sy'n ymtrin â 6 thema, fel a ganlyn:

1. Lles
2. Dysgu
3. Gofal a datblygiad
4. Addysgu ac asesu
5. Yr amgylchedd
6. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Bydd arolygwyr yn archwilio gwaith y lleoliad i liniaru effaith tlodi ar les a dysgu plant trwy thema 6, arweinyddiaeth a rheolaeth.

Dylai arolygwyr ystyried:

1. A oes gan y lleoliad weledigaeth gynhwysol gyda disgwyliaid uchel o'r holl blant, ni waeth am eu cefndir?
2. Pa mor wybodus yw arweinwyr y lleoliad am anghenion ei blant a'u teuluoedd?
3. Sut mae'r lleoliad wedi defnyddio cyllid grant, fel y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, i gynorthwyo plant o aelwydydd incwm isel?
4. Sut mae arweinwyr yn sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth o ddatblygiad plant, gan gynnwys eu lles emosiynol a chymdeithasol, a'u hanghenion datblygu corfforol a dysgu?
5. Sut mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso effaith gwariant grant?

Engbreffiau adrodd a thystiolaeth ategol:

'Mae arweinwyr yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar yn effeithiol i sicrhau bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Mae hyn wedi galluogi'r staff i amlygu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn llwyddiannus.'

'Mae gan arweinwyr ddisgwyliaid uchel o ymarferwyr a phlant. Maent yn arwain trwy esiampl ac yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd y lleoliad. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, eu bod yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn gyson ac yn sicrhau bod pawb a phopeth yn bodloni eu safonau uchel. Mae arweinwyr yn ystyried effaith tlodi ar les plant yn dda ac wedi cyflwyno systemau i liniaru hyn, er enghraifft rhannu adnoddau a chyflwyno banc gwisg ysgol.'

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

'Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant, fel y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, yn dda. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid i wella mynediad at gyfleoedd dysgu awyr agored. Mae hyn yn sicrhau bod plant, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol.'

'Gwneir defnydd da o gyllid grant, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, i gefnogi a gwella dysgu a lles plant. Mae hyn yn cynnwys gosod ystod dda o gyfarpar chwarae i ddatblygu creadigrwydd a dychymyg plant a darparu hyfforddiant priodol gan sicrhau bod ymarferwyr yn deall sut i addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol.'

Atodiad 1: Sampl o gwestiynau i'w gofyn am y dull o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

Nid yw'r rhestr o gwestiynau yn hollgynhwysfawr; enghreifftiau yn unig ydynt y gellid eu defnyddio mewn trafodaethau gyda disgyblion, staff ac arweinwyr i gasglu gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Nid ydym yn disgwyl i arolygwyr ofyn yr holl gwestiynau hyn a dylent gyfeirio at becynnau offer sectorau unigol i gael arweiniad ar y cwestiynau i ganolbwyntio arnynt.

Maes arolygu 1 – Addysgu a dysgu

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr ynglŷn â chynnydd disgyblion:

1. Sut mae cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn cymharu â disgyblion eraill? A ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent? A gaiff eu cyfraddau cynnydd eu cyflymu?

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff ynglŷn â chynnydd disgyblion:

2. Pa gynnydd y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn ei wneud? Sut mae hyn yn cymharu â disgyblion eraill?

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr a staff ynglŷn ag addysgu a'r cwricwlwm:

1. Sut ydych chi wedi trefnu'r cwricwlwm a threfniadau grwpiau / setiau disgyblion fel bod disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn cael mynediad cyfartal? / A ydych chi wedi ystyried sut gallai trefniadaeth y cwricwlwm a grwpiau / setiau disgyblion effeithio ar ddisgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi? Sut ydych chi'n neilltuo staff addysgu i grwpiau neu setiau?
2. Sut ydych chi'n addasu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf (3-4 oed) o aelwydydd incwm isel?
3. Sut mae pob aelod o staff yn sicrhau bod addysgu a darpariaeth yn cefnogi'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gael dyheadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys y rhai ag ADY a'r rhai mwy abl?
4. Pa ymyriadau ydych chi'n eu defnyddio i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim? Beth yw effaith hyn?
5. Sut ydych chi'n rhoi darpariaeth ychwanegol ar waith i gyfoethogi'r cwricwlwm heb roi gofidiau ariannol i deuluoedd incwm isel?
6. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw disgyblion o deuluoedd incwm isel dan anfantais o ran mynediad at adnoddau digidol?
7. Sut ydych chi'n sicrhau mynediad cyfartal at weithgareddau cyfoethogi fel y celfyddydau, gweithgareddau cerddorol a chwaraeon?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

8. Sut ydych chi'n addasu'ch cynllunio i sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael y cyfle gorau i lwyddo? Sut ydych chi'n ysbrydoli'r disgyblion hyn a chodi eu dyheadau?
9. Sut ydych chi'n asesu'r cynnydd y mae'r grŵp hwn yn ei wneud?
10. Pa ddysgu proffesiynol ydych chi wedi'i gael i'ch cynorthwyo i ddeall tlodi? O ganlyniad i hyn, ydych chi wedi addasu'ch addysgu neu'ch darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion?

Maes arolygu 2 – Gofal, cymorth a lles

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:

1. Sut mae lefelau presenoldeb ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel yn cymharu â disgyblion eraill? Beth yw'r cyfraddau gwahardd ar gyfer y disgyblion hyn? Beth ydych chi'n ei wneud i gynorthwyo'r disgyblion hyn i wella eu presenoldeb?
2. A yw llawer o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o aelwydydd incwm isel yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth neu swyddi cyfrifol?
3. Pa fath o gymorth ychwanegol ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel?
4. Sut ydych chi'n asesu, pennu a blaenoriaethu anghenion disgyblion?
5. A oes gan yr ysgol rôl Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd neu rôl debyg ar hyn o bryd, h.y. rôl staff sydd â chyfrifoldeb penodol am ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned? A allwch chi amlinellu beth mae'n ei wneud ac effaith ei rôl?

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:

1. A yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyfrannu'n dda at wersi a thrafodaethau?
2. A oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
3. Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ddisgyblion o deuluoedd incwm isel lais yn yr ysgol?
4. Pa gyfleoedd ydych chi'n eu darparu i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o lwybrau gyrfa? Pa effaith mae hyn yn ei chael ar ddatblygu eu dyheadau?
5. Sut ydych chi'n sicrhau mynediad cyfartal at gymorth ymyrraeth technoleg ddigidol? Er enghraifft, a yw pob un o'r disgyblion yn cael mynediad cyfartal at gyfrifiaduron neu ddyfeisiau digidol wrth wneud dysgu gartref?

Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff sy'n cefnogi ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

Defnyddiwch yr un cwestiynau lefel uchel ag yr amlygwyd uchod. Yn ystod yr arolygiad, fe allech ddymuno ystyried rhai o'r agweddau a grybwyllir isod.

1. Esboniwch eich gwaith gyda theuluoedd incwm isel. Sut ydych chi'n ffurfio perthnasoedd â theuluoedd incwm isel?
2. Pa asiantaethau eraill sy'n eich cynorthwyo â'r gwaith hwn?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

3. Pa ymyriadau ydych chi'n eu darparu ar gyfer disgyblion a theuluoedd sydd ar incwm isel?
4. A ydych chi'n ymwybodol o Grant Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion? Sut ydych chi wedi gwneud teuluoedd yn ymwybodol o hyn? Ym mha ffyrdd eraill ydych chi'n cynorthwyo disgyblion a theuluoedd?
5. Sut ydych chi'n cadw costau'n isel ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel, er enghraifft wrth drefnu teithiau ysgol?
6. A ydych chi'n cynnal unrhyw hyfforddiant neu gymorth i deuluoedd ar ymwybyddiaeth ariannol?
7. Sut ydych chi'n cynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferth yn ariannol?
8. Sut ydych chi'n cynorthwyo teuluoedd incwm isel i helpu eu plant gyda'u haddysg gartref?
9. A ydych chi'n cynnal unrhyw fentrau penodol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd sydd ar incwm isel, fel rhaglenni magu plant?
10. Ym mha ffyrdd ydych chi'n ymgynghori â'r holl rieni ar hyn o bryd i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, er enghraifft, fforwm / corff rhieni neu rywbeth tebyg?
11. A yw'r ysgol yn agor ei chyfleusterau at ddefnydd y gymuned ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r rhain?
12. A yw'ch ysgol yn cynnig unrhyw wasanaethau a gweithgareddau i blant a theuluoedd y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ar hyn o bryd?

Maes arolygu 3 – Dysgu a gwella

Engbreiffiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:

1. Beth yw gweledigaeth a strategaeth yr ysgol ar gyfer goresgyn rhwystrau disgyblion rhag dysgu, fel effaith tlodi? Sut oeddech chi'n rhan o ddatblygu hyn?
2. Sut mae'r weledigaeth yn edrych yn ymarferol yn eich ystafell ddosbarth, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny o aelwydydd incwm isel?
3. Sut ydych chi'n cynorthwyo arweinwyr i fonitro a gwerthuso effaith strategaethau i gefnogi cynnydd disgyblion?

Engbreiffiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:

1. Beth yw'r weledigaeth ar gyfer codi cyrhaeddiad a lleihau rhwystrau rhag dysgu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel?
2. Sut ydych chi'n amlygu disgyblion a theuluoedd o aelwydydd incwm isel? (cyllid grant, gwybodaeth leol)
3. Beth ydych chi'n ei wybod am y gymuned leol? Pa ffynonellau ydych chi'n eu defnyddio i'ch helpu? (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
4. Beth yw strategaeth gyffredinol yr ysgol ar gyfer dileu rhwystrau rhag dysgu, fel effaith tlodi ar gyrhaeddiad?
5. Pa strategaethau addysgu ydych chi'n eu hyrwyddo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn cael eu cefnogi'n effeithiol?
6. Sut ydych chi'n monitro cynnydd y disgyblion hyn?
7. Pa ddysgu proffesiynol ydych chi'n ei ddarparu i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai hynny o aelwydydd incwm isel, yn cael addysgu o ansawdd uchel?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

8. Pa ddysgu proffesiynol sydd ar waith i alluogi staff i ddeall y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer codi cyrhaeddiad yr holl ddisgyblion, ni waeth am eu cefndir?
9. Sut ydych chi'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynnyddoedd Cynnar? Sut ydych chi'n monitro ac olrhain effaith hyn ac esbonio sut rydych chi'n gwerthuso ei effaith? Sut caiff hyn ei adrodd i lywodraethwyr a'r gymuned? (Gofynnwch am gael gweld datganiad y Grant Datblygu Disgyblion ar strategaeth yr ysgol ar fynd i'r afael â thlodi a gofynnwch ble y caiff ei gyhoeddi)
10. A oes gennych chi swyddog ymgysylltu â theuluoedd? A allwch chi sôn am ei rôl wrth gefnogi teuluoedd o aelwydydd incwm isel a sut mae hyn yn helpu ac yn cefnogi ymgysylltiad a chynnydd eu plant mewn dysgu yn yr ysgol?
11. Sut ydych chi'n gweithio gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion a'r teuluoedd hyn? Sut mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu? A yw'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion neu sefydliadau eraill i fynd i'r afael ag effaith tlodi? Esboniwch natur ac effaith y gwaith hwn.
12. Sut ydych chi'n gwerthuso gwaith yr ysgol sy'n amcanu at fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion?
13. A oes gennych chi lywodraethwr a enwyd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? Sut mae'n ymwneud â gwaith yr ysgol? (Byddai'n ddefnyddiol cynnwys y llywodraethwr hwn mewn cyfarfod.)
14. Fel llywodraethwyr, beth allwch chi ei ddweud wrthyf am waith yr ysgol ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion? Beth yw effaith y gwaith hwn?
15. Fel llywodraethwyr, ydych chi'n ymwybodol o ddefnydd yr ysgol o unrhyw grantiau neu gyllid ychwanegol i gefnogi gwaith yr ysgol ar fynd i'r afael â thlodi?

Atodiad 2: Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a diffinio aelwydydd incwm isel

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i blant cymwys sy'n mynd i ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae [Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd](#) wedi cael eu cyflwyno ar draws yr holl ysgolion cynradd yng Nghymru.

Prydau Ysgol Am Ddim

Mae cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn dibynnu ar incwm aelwyd a ph'un a yw rhieni'n derbyn rhai budd-daliadau. Efallai bydd plant y mae eu rhieni'n derbyn y taliadau cymorth canlynol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i gael Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol, yn unol ag asesiad gan Gyllid a Thollau EM, yn fwy nag £16,190
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith 'ychwanegol' – y taliad y gallai rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl yr adeg pan nad yw'n gymwys i gael Credyd Treth Gwaith mwyach
- O 1 Ebrill 2019, Credyd Cynhwysol, ar yr amod nad yw'r aelwyd yn ennill incwm blynyddol net sy'n fwy na £7,400 (yn unol â'r asesiad o enillion o hyd at dri o'u cyfnodau asesu diweddaraf)

Y tu hwnt i'r ysgol gynradd, caiff prydau ysgol am ddim eu dyfarnu lle mae'r rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, a bod cais am brydau ysgol am ddim wedi cael ei wneud gan y rhiant, neu ar ei ran.

Efallai bydd pobl ifanc sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn eu hawl eu hunain yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Bydd angen i'r plentyn fynychu'r ysgol yn amser llawn hefyd, sy'n gallu cynnwys diwrnodau llawn yn y dosbarth meithrin a myfyrwyr chweched dosbarth.

Gellir cael gwybodaeth am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer 2024/25 [yma](#).

Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn argaeledd prydau ysgol am ddim, gan ddechrau â'r dysgwyr ieuengaf. O fis Medi 2024, bydd pob disgybl ysgol gynradd yn gallu cael pryd ysgol am ddim.

Nid yw'r cynnig Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn dibynnu ar incwm aelwyd na ph'un a yw rhieni'n derbyn unrhyw fudd-daliadau; mae pob plentyn yn y grwpiau blwyddyn hyn yn gymwys i fanteisio ar y cynnig. Mae'r prydau ar gael yn ystod y tymor ysgol yn unig, ac nid yn ystod y gwyliau ysgol.

Mae ysgolion yn cael eu hariannu ar wahân ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n dod o aelwydydd incwm isel hefyd.

Aelwydydd incwm isel

Ystyrir bod unigolyn mewn tlodi os yw [incwm ei aelwyd](#) yn disgyn islaw 60% canolrif y DU (sef y gwerth canol mewn rhestr o rifau sydd wedi cael eu trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf).

Yr incwm aelwyd wythnosol canolrifol yn y DU yw £476 ar ôl costau tai, a 60% o hyn yw tua £286.

Rydym yn diffinio bod unigolyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw ar aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o'r holl ffynonellau yn llai na 60% o incwm aelwydydd cyfartalog y DU (fel y rhoddwyd gan y canolrif). Mae'r ffigurau isod yn ymwneud â thlodi cymharol yng Nghymru ar ôl talu costau tai fel taliadau llog ar forgais / rhent, ardrethi dŵr ac yswiriant strwythurol tai.

<https://llyw.cymru/mesurau-tlodi-ebrill-2020-i-fawrth-2021-html>

Atodiad 3: Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)

Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Grant Datblygu Disgyblion (a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2024) yn amlinellu sut mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddsbarthu a'r disgwyliadau o rôl awdurdodau lleol.

Mae'r canllawiau'n datgan bod cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei dalu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol a'i ddsbarthu i ysgolion a lleoliadau. Disgwylir i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda chonsortia rhanbarthol a phartneriaethau (lle y bo'n berthnasol), yn ogystal ag ysgolion a lleoliadau, i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at ei ddibenion bwriadedig. Adroddir ar weithgarwch ac effaith gwariant i Lywodraeth Cymru gan Gynghorwyr Grant Datblygu Disgyblion (a Chydlynwyr Rhanbarthol Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, lle y bo'n berthnasol) ac awdurdodau lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Grant Datblygu Disgyblion hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran cyllid Grant Datblygu Disgyblion fel a ganlyn:

Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol drosglwyddo cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn llawn i ysgolion a lleoliadau fel yr amlinellir yn y [dyraniadau lefel ysgol a lleoliad](#). Mae hefyd yn ofynnol iddynt ddsbarthu unrhyw gyllid ychwanegol yn llawn. Bydd hyn yn lleihau effaith gostyngiadau i gyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn dilyn ail ddilysu data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2023. Mae'r canllawiau'n datgan bod hyblygrwydd yn bwysig i alluogi'r awdurdod lleol i ymateb i anghenion yn ei ardal, ond disgwylir i'r dyraniad Grant Datblygu Disgyblion gael ei ddatganoli'n llawn i ysgolion a lleoliadau.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd:

- sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn cael gwybod am y wybodaeth hon, canllawiau'r Grant Datblygu Disgyblion a thelerau ac amodau grant perthnasol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion
- cynorthwyo ysgolion a lleoliadau i ymgysylltu â Chynghorwyr Grant Datblygu Disgyblion wrth gynllunio a gwerthuso eu gwariant Grant Datblygu Disgyblion fel yr amlinellir yng nghanllawiau'r Grant Datblygu Disgyblion – mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn cyhoeddi eu datganiad strategaeth Grant Datblygu Disgyblion ar eu gwefan
- parhau i ariannu'r Cynghorydd Grant Datblygu Disgyblion, a'r Cydlynnydd Rhanbarthol Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (lle y bo'n berthnasol), gweithio gydag ef a'i alluogi i gyflawni gweithgarwch yn effeithiol, i adrodd i Lywodraeth Cymru ar weithgarwch ac effaith gwariant Grant Datblygu Disgyblion ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol a rhanbarthau

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu cynlluniau ac adrodd yn ôl ar gyllid y Grant Datblygu Disgyblion trwy Gynghorwyr Grant Datblygu Disgyblion ac mewn ffurflenni rheolaidd. Dylai'r rhain gynnwys pa ysgolion a lleoliadau a dargedwyd neu sydd wedi

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

elwa o gyllid ychwanegol, a'r rhesymeg wrth wraidd hyn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei wario ar fentrau neu gymorth a gefnogir gan dystiolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel a'r rhai sydd â phrofiad o ofal.

Y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddsbarthu cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y blynyddoedd cynnar i ysgolion a lleoliadau. Mae'r canllawiau'n amlinellu sut y bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda darparwyr Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar a gynhelir ac nas cynhelir i sicrhau eu bod yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol wrth gefnogi'r wyth elfen, ar yr un pryd â chryfhau cysylltiadau â'r lleoliadau nas cynhelir (yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellwyd uchod).

Y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

O 2024 i 2025, mae awdurdodau lleol yn derbyn cyllid y Grant Datblygu Disgyblion a roddir i ysgolion a lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dylai awdurdodau lleol ystyried sut byddant yn defnyddio'r grant yn effeithiol i gynllunio, gosod targedau ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o ofal, a'u cynorthwyo.

Yn seiliedig ar anghenion lleol, gall awdurdodau lleol ddewis:

- trosglwyddo'r holl gyllid ymlaen i ysgolion, lleoliadau a chlystyrau
- cadw rhywfaint o'r cyllid ar gyfer gweithgareddau a fydd o fudd i grŵp o blant a phobl ifanc yr awdurdod sydd â phrofiad o ofal, neu bob un ohonynt
- cadw rhannau o'r cyllid i gyflogi Cydlynwyr y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal Awdurdod Lleol neu Ranbarthol (lle mae swyddi rhanbarthol yn bodoli, disgwylir i'r rhain barhau i gael eu hariannu am gyfnod pontio)

Yn 2024-2025, mae'r canllawiau'n datgan y gellir parhau i ddefnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â chydlynu a goruchwyllo'r grant yn strategol. Gall y costau hyn fod yn gysylltiedig â'r awdurdod lleol neu'r trefniadau rhanbarthol presennol.

Y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddyrannu cyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r canllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion yn amlinellu sut bydd awdurdodau lleol yn gweithio gydag UCD ac awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn defnyddio elfen addysg heblaw yn yr ysgol y grant yn effeithiol.

Trywyddau ymholi / cwestiynau arolygu lleol a awgrymir ar gyfer arolygiadau o GALIL

- Beth yw eich strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi a sut caiff hon ei rhannu ag ysgolion? I ba raddau y caiff y strategaeth ei deall gan bob ysgol?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- Pa mor gynnar ydych chi'n amlygu pa blant a theuluoedd sydd mewn aelwydydd incwm isel? Pa mor dda ydych chi'n gweithio gyda'r bwrdd iechyd lleol i amlygu'r teuluoedd hyn?
- Sut ydych chi'n gwerthuso cyrhaeddiad, cynnydd a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel yn yr awdurdod hwn?
- Pa drefniadau sydd ar waith i fonitro perfformiad, cynnydd a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel? Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio i lywio'ch barn? Er enghraifft, ydych chi'n olrhain y bobl ifanc hyn i addysg a hyfforddiant ôl-16?
- Beth allwch chi ei ddweud wrthym am berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel yn yr awdurdod ym mhob cam dysgu? Beth yw'r tueddiadau dros gyfnod? Ac ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr o aelwydydd incwm isel, fel y rhai ag ADY, y rhai mwy abl, grwpiau ethnig leiafrifol ac eraill?
- Pa mor dda y mae disgyblion o aelwydydd incwm isel a addysgir heblaw yn yr ysgol yn gwneud cynnydd wrth ddysgu?
- Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n strategol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn?
- Pa mor effeithiol yw'r strategaeth hon a pha effaith y mae'n ei chael ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion?
- A oes yna unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb am fonitro perfformiad y grŵp hwn neu ai'r consortiwm rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am hyn? Os felly, sut mae'r awdurdod yn gwybod bod anghenion ei ddisgyblion yn cael eu diwallu?
- Pa mor llwyddiannus fu'r rôl hon o ran gwella cynnydd, lles a llwyddiant disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel? Ydych chi'n gallu rhoi enghreifftiau penodol?
- Sut ydych chi'n gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i gysylltu'r cymorth ar gyfer y disgyblion hyn? Pa enghreifftiau a geir o weithio'n llwyddiannus ar draws cyfarwyddiaethau neu wasanaethau?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y cymorth a'r her sydd eu hangen arnynt o ran gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn?
- Pa gymorth / datblygiad proffesiynol a gaiff arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth? Pa mor effeithiol yw hyn o ran gwella deilliannau?
- Sut ydych chi'n monitro'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar / Grant Datblygu Disgyblion?
 - i) Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn eich awdurdod yn defnyddio cyllid grant ar gyfer disgyblion dan anfantais, a sut ydych chi'n gwybod? At ei gilydd, beth yw'r cryfderau a'r gwendidau? Pa dulliau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu?
 - ii) A oes trefniadau i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau i wario'r Grant Datblygu Disgyblion? Ydych chi'n monitro unrhyw werthusiadau o wario grant blaenorol?
 - iii) Beth sy'n digwydd os nad yw ysgol yn defnyddio'r cyllid yn briodol?
 - iv) Beth sy'n digwydd os oes arfer arbennig o dda?
 - v) Ydych chi'n gallu nodi unrhyw arfer arbennig o dda o ran defnyddio cyllid grant?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

vi) A oes yna unrhyw drefniadau i gynorthwyo ysgolion â symiau llai o gyllid grant i gydweithio er mwyn uchafu effaith y cyllid?

- A oes yna unrhyw enghreifftiau o arfer arloesol i gynorthwyo dysgwyr sy'n anos eu cyrraedd, fel disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol? Unrhyw enghreifftiau o bartneriaethau arloesol rhwng ysgolion a sefydliadau ieuenctid / gwirfoddol?
- Rydym yn ymwybodol mai'r consortiwm rhanbarthol sydd â'r cyfrifoldeb cynllunio strategol am y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr awdurdod yw'r rhant corfforaethol o hyd. Gyda hyn mewn cof, sut ydych chi'n monitro'r cynllunio a'r ddarpariaeth trwy'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn eich gofal?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a sut ydych chi'n gwybod?

Elfennau penodol posibl

- Beth yw'r cyfraddau absenoldebau parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o deuluoedd incwm isel? A yw'r awdurdod yn monitro'r rhain? Beth ydych chi'n ei wneud i gynorthwyo / herio ysgolion i ostwng cyfraddau absenoldeb parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- Pa drefniadau sydd ar waith i wella ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn eich ysgolion?
- Pa strategaethau ymyrraeth gynnar sydd gennych chi i gynorthwyo'r grŵp hwn o ddisgyblion a theuluoedd?
- Beth mae eich gwybodaeth ddechreuol yn ei ddweud wrthyich am ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol? Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o'r wybodaeth hon?
- Ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw bartneriaethau ymchwil, er enghraifft gyda phrifysgol? Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad?
- Beth yw strategaeth yr awdurdod lleol i gefnogi datblygiad ysgolion bro? Sut mae hyn wedi dylanwadu ar Raglen Ysgolion yr ALL ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif?
- Beth yw'r dull ar gyfer defnyddio cyllid LIC i gefnogi datblygiad Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Rheolwyr Cymunedol?

Atodiad 4: Cyllid grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o ganllawiau ar addysg plant difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion ac ar y Grant Mynediad Datblygu Disgyblion y gellir eu defnyddio ar gyfer gwisg ysgol, offer, cit chwaraeon a gweithgareddau. Mae'r canllawiau hyn ar gael yn <https://llyw.cymru/addysgu-plant-difreintiedig>.

Mae [dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Grant Datblygu Disgyblion](#) (a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2024) yn amlinellu'r hyn y mae meini prawf gwario Llywodraeth Cymru yn ei gynnwys.

Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r canllawiau'n datgan y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion ganolbwyntio ar ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed a chael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar:

- **ddysgu ac addysgu o ansawdd uchel**
- **Ysgolion Bro**
- chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar
- dyheadau uchel a gefnogir gan berthnasoedd cryf
- iechyd a lles
- arweinyddiaeth
- Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau
- cefnogi dilyniant ôl-16

Dylai gwariant ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac ysgolion bro. Gall ysgolion ddefnyddio'r cyllid grant i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a theilwra ymyriadau dysgu ac addysgu.

Y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar

Yn yr un modd, mae'r canllawiau'n nodi y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar i gefnogi disgyblion 3-4 oed. Dylai'r cyllid ganolbwyntio ar:

- les emosiynol a chymdeithasol plant – gan werthfawrogi rhyngweithiadau a pherthnasoedd o ansawdd
- datblygiad corfforol plant – gan ganolbwyntio ar ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant
- anghenion dysgu a datblygu plant – gan roi blaenoriaeth uchel i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae'r canllawiau'n amlinellu y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar ganolbwyntio ar adnabod yn gynnar a dulliau effeithiol sy'n cyd-fynd ag addysgeg dysgu sylfaen sy'n cefnogi datblygiad plant. Mae hyn yn cynnwys addysg feithrin o ansawdd uchel gydag oedolion galluogol sydd â dealltwriaeth drwyadl o

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tldi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

ddatblygiad plant. Mae'r canllawiau'n amlygu pwysigrwydd yr addysgeg lwyddiannus a ddisgrifir yn y canllawiau dylunio cwricwlwm 'Galluogi Dysgu'.

Mae Galluogi dysgu yn amlinellu nodweddion allweddol addysgeg lwyddiannus, yn enwedig ar gyfer dysgwyr iau. Mae addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n ymatebol, yn ddynamig ac wedi'i hymgorffori mewn perthnasoedd cryf, yn hanfodol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran datblygiad ieithyddol plentyn. Mae angen i blant gael amser i ddatblygu medrau siarad a gwrando da. Mae profiadau o ansawdd uchel yn hanfodol i gynorthwyo plant i ddatblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Dylai amgylcheddau fod yn gyfoethog o ran cyfathrebu. Mae chwarae'n allweddol i ddatblygiad corfforol, deallusol a chreadigol. Trwy ddysgu seiliedig ar chwarae, gellir canolbwyntio profiadau plentyn ar weithgareddau creadigol a datrys problemau. Dylai plant fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu dysgu.

Y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae hyn yn cefnogi cyrhaeddiad addysgol:

- plant sy'n derbyn gofal
- plant sydd wedi cael eu mabwysiadu
- plant sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig

Disgwylir o hyd y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ganolbwyntio ar:

- fod o fudd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â phrofiad o ofal, gan gyfrannu at ddatblygu ysgolion a lleoliadau cynhwysol sydd wedi ymrwmo i degwch a lles
- cyllid i glystyrau o ysgolion a lleoliadau i gynyddu capasiti a darparu ymyriadau wedi'u teilwra a ddylai fodloni anghenion dysgwyr unigol ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn o effaith gadarnhaol ar eu deilliannau dysgu
- ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cyfleu safbwyntiau'r dysgwr i'w defnyddio i lywio cynlluniau ysgol, lleoliad a chwstwr a strategaeth yr ALI/rhanbarth

Cyhoeddi'r Grant Datblygu Disgyblion

- Mae'n rhaid i bob ysgol gyhoeddi ei dyraniad Grant Datblygu Disgyblion ac amlinelliad o'i chynlluniau diweddaraf i ddefnyddio'r cyllid i wella deilliannau ar gyfer plant difreintiedig ar-lein. Os nad oes gan ysgol wefan benodol, mae'n rhaid iddi sicrhau bod y wybodaeth ar gael trwy wefan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm neu fel rhan o wybodaeth am yr ysgol a gyhoeddir ar ffurf copi caled.
- Os oes gan ysgol lai na phum dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dylai gyhoeddi datganiad ynglŷn â defnydd o'r grant a'i effaith, ond ni ddylai ddatgelu nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na swm y dyraniad Grant Datblygu Disgyblion.
- Nid oes rhaid i ysgolion gynhyrchu cynllun ar wahân ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Gellir ei gynhyrchu yn rhan o gynllun gwella ysgol ehangach.

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

Dylid defnyddio hunanwerthusiad ysgol i amlygu blaenoriaethau priodol ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a chyfleu ei effaith. Mae dogfen ganllaw'r Grant Datblygu Disgyblion yn argymhell y gall ysgolion ddefnyddio dull wedi'i lywio gan dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn. Gweler: [Canllaw i'r Grant Datblygu Disgyblion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Gellir gweld dyraniadau cyfredol ysgolion unigol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar a grantiau addysg heblaw yn yr ysgol awdurdodau lleol yma: [Grant Datblygu Disgyblion a Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar: dyraniadau | LLYW.CYMRU](#)

Atodiad 5: Effaith cyllid grant

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae ysgolion/lleoliadau yn defnyddio eu cyllid grant yn briodol ac effeithiolrwydd hunanwerthuso'r defnydd o grantiau.

Cwestiwn Allweddol: Pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio ac yn gwerthuso effaith cyllid grant ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n dod o aelwydydd incwm isel?

Ystyriaethau allweddol:

- A oes gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o anghenion eu disgyblion a'u rhwystrau rhag dysgu? A yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n effeithiol â staff perthnasol?
- A yw cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymagwedd ysgol gyfan at addysgu a dysgu effeithiol?
- A yw cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymagwedd ysgol gymunedol?
- A oes gan yr ysgol/lleoliad/awdurdod lleol strategaeth glir ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad? Sut mae'n targedu defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion / y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar / y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn gofal i'w chefnogi / gefnogi â'r nod hwn? A yw'r ysgol yn cyhoeddi ei strategaeth ar ei gwefan?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn monitro effaith gwariant y Grant Datblygu Disgyblion? A yw hyn yn rhan annatod o'r broses hunanwerthuso ysgol gyfan?
- Pa mor fyfyrion yw arweinwyr? A ydynt yn addasu a mireinio dulliau yn seiliedig ar hunanwerthuso?
- Pa effaith y mae gwariant grant yn ei chael ar wella cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion o aelwydydd incwm isel?

Yr hyn y gall arolygwyr ddisgwyl ei weld mewn ysgolion neu leoliadau sy'n defnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn dda:

- Gweledigaeth gynhwysol sy'n canolbwyntio ar sicrhau cydraddoldeb i bawb
- Ymagwedd ysgol gyfan at fynd i'r afael â thlodi gyda phwyslais clir ar ddatblygu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac ymagwedd Ysgol Fro.
- Arweinydd sy'n gyfrifol am ddysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (ni ellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ariannu'r rôl hon)
- Ymgysylltu a chydweithio'n effeithiol â chynghorydd Grant Datblygu Disgyblion yr awdurdod lleol a / neu'r ALI / consortia rhanbarthol a lleoliadau / sefydliadau eraill.
- Defnydd llwyddiannus o hunanwerthuso i werthuso effaith gwariant grant ac i bennu anghenion / dulliau newydd.
- Cyhoeddi datganiadau strategaeth blynyddol y Grant Datblygu Disgyblion ar wefan yr ysgol ar ddefnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Grant Datblygu Disgyblion yn cynnwys nifer o astudiaethau achos dienw y mae Estyn wedi'u cyhoeddi ynglŷn â defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion trwy addysgu a dysgu ac ymagwedd ysgol gymunedol. Mae gwefan Estyn yn cynnwys nifer o enghreifftiau defnyddiol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

[Diogelu'r Diwrnod Ysgol rhag Tlodi | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Ymagwedd Ysgol Greenhill at sicrhau tegwch | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys datblygu'r ysgol gymunedol | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Effaith ymagwedd yr ysgol gyfan at ddileu rhwystrau rhag dysgu. | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Arweinyddiaeth cymorth ysgol effeithiol ar gyfer disgyblion dan anfantais a bregus | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Cefnogi pobl ifanc fregus trwy weithio mewn gwasanaethau integredig | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Sut mae Ysgol Uwchradd Llanisien yn gweithio i sicrhau mynediad bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle teg i elwa ar brofiadau dysgu | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

[Cefnogi teuluoedd trwy'r argyfwng costau byw | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Mae adroddiadau arolygu cyhoeddedig yn amlygu enghreifftiau niferus o arfer dda ar draws sectorau. Gweler ein gwefan am fanylion: [Adroddiadau arolygu diweddaraf | Estyn \(llyw.cymru\)](#)

Atodiad 6: Iaith gynhwysol

Mae arolygwyr yn ymdrechu i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad yn gynhwysol. Mae canllaw ysgrifennu Estyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol yn ei atodiad ar ddefnyddio iaith gynhwysol. Gweler Atodiad 6 [Canllaw ysgrifennu Estyn: Saesneg \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r canlynol yn ddefnyddiol hefyd:

le	Na	Rheswm
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel	Cefndiroedd incwm isel neu deuluoedd incwm isel.	Defnyddir y term aelwydydd incwm isel yn eang i ddisgrifio tlodi ac mae wedi'i seilio ar ddiffiniad y DU o dlodi. Ystyrir bod aelwydydd islaw llinell dlodi'r DU / ar incwm isel cyfartalog os yw eu hincwm 60% yn is nag incwm canolrifol aelwydydd ar ôl costau tai. Defnyddiwch y gair aelwyd yn hytrach na chefnidiroedd neu deuluoedd, sy'n gallu bod yn fwy goddrychol.
Plant / dysgwyr / disgyblion sy'n byw mewn tlodi a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu cyrhaeddiad addysgol	Cefndiroedd difreintiedig. Byw mewn amddifadedd.	Mae hyn yn cyfeirio'n glir at effaith tlodi yn uniongyrchol ac yn gwneud y cysylltiad â chyrhaeddiad addysgol.
Plant / dysgwyr / disgyblion sy'n profi tlodi a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu cyrhaeddiad addysgol	Cefndiroedd difreintiedig.	Fel yr uchod, ond mae'n cyfeirio at y profiad ehangach o dlodi – dewis amgen i'r uchod.
Cyd-destunau dan anfantais economaidd-gymdeithasol	Disgyblion dan anfantais. Disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi. Disgyblion difreintiedig. Disgyblion sy'n byw mewn amddifadedd.	Dylid osgoi priodoli gwerthoedd negyddol i ddisgyblion a'u bywydau.
Effaith tlodi	Effaith amddifadedd	Dylid osgoi iaith negyddol sy'n gysylltiedig â thlodi.

Atodiad 7: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol

Gellir gweld cyhoeddiadau Estyn sy'n gysylltiedig â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn <https://www.estyn.llyw.cymru/>

Dogfennau defnyddiol eraill:

[Canllaw i'r Grant Datblygu Disgyblion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

[Y Grant Datblygu Disgyblion: trosolwg \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#) (Ebrill, 2024)

[Ysgolion Bro \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

[Plant yng Nghymru | Pris Tlodi Disgyblion](#)

[UK Poverty 2022: The essential guide to understanding poverty in the UK | JRF](#)

[MALIC - Hafan \(llyw.cymru\)](#)

[Plant yng Nghymru | Dileu Tlodi Plant – Ystadegau Tlodi Plant](#)

[Cipolwg ar dlodi yn Haf 2022 – Sefydliad Bevan](#)

[Datganiad Llafar: Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb \(22 Mawrth 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

[Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: adroddiad terfynol \(llyw.cymru\)](#)

[Gwerthusiad o weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | LLYW.CYMRU](#)

[Gwerthusiad o weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn y Blynnyddoedd Cynnar - NFER](#)

[Canllaw ysgrifennu Estyn: Saesneg \(llyw.cymru\)](#)

Atodiad 8: Crynodeb arolygu

Maes arolygu	Beth i'w ystyried	Ffynonellau tystiolaeth posibl
Maes arolygu 1 (MA1)	<ul style="list-style-type: none"> Pa gynnydd y mae disgyblion o aelwydydd incwm isel yn ei wneud dros amser? A yw'r ysgol yn blaenoriaethu addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl? A oes ymagwedd gynhwysol? Sut mae addysgu a'r cwricwlwm yn sicrhau bod y grŵp hwn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd? A yw'r staff yn rhoi adborth mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r disgyblion? A yw'r adborth hwn yn bodloni eu hanghenion unigol? 	<ul style="list-style-type: none"> Sampl o waith disgyblion ar draws y cwricwlwm i weld a ydynt yn gwneud cynnydd yn unol â'r holl ddisgyblion Teithiau dysgu (ar y cyd) Arsylwi gwersi Trafod gyda disgyblion Samplau o ddata olrhain / monitro disgyblion Cyfarfodydd â'r arweinydd tlodi / arweinwyr eraill perthnasol Craffu ar ddata (lle y bo'n berthnasol) Cyfarfod â staff
Maes arolygu 2 (MA2)	<ul style="list-style-type: none"> Sut mae cyfraddau presenoldeb disgyblion o aelwydydd incwm isel yn cymharu â rhai disgyblion eraill? Sut mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion a theuluoedd i gyflawni presenoldeb gwell? Pa mor dda y mae strategaethau ymyrraeth yr ysgol, neu gymorth penodol i'w lles yn helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd? Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn sefydlu partneriaethau cryf â theuluoedd, y gymuned ac ystod o asiantaethau a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i'w helpu i gyrraedd eu potensial a chyflawni eu dyheadau? 	<ul style="list-style-type: none"> Craffu ar ddata (presenoldeb a lles) Cyfarfod ag arweinwyr presenoldeb a lles – fe allai hyn gynnwys Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd Trafod gyda disgyblion Holiadur rhieni a chyfarfod â rhieni Taith ddysgu (sut mae disgyblion yn mynd i mewn i'r ysgol?) Cyfarfod â staff
Maes arolygu 3 (MA3)	<ul style="list-style-type: none"> Pa mor dda y mae arweinwyr ysgolion yn sefydlu diben clir a gweledigaeth glir i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol? Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynllunio'r ddarpariaeth yn strategol i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel neu sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan roi sylw dyladwy i Genhadaeth ein Cenedl? Pa mor dda y mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol, gan gynnwys cyllid grant, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad? Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau mynediad at ddysgu proffesiynol ac ymchwil ynglŷn â'r ffordd orau o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac yn gwerthuso effaith yr hyn a ddysgwyd? Pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso strategaethau, mentrau a darpariaeth graidd yn systematig i ystyried eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel? 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd â staff Craffu ar ddogfennau fel cynlluniau Grant Datblygu Disgyblion, Cynllun Gwella Ysgol a gwerthusiadau Cyfarfod ag arweinwyr allweddol, gan gynnwys y pennaeth Holiadur llywodraethwyr Cyfarfod â llywodraethwyr Cyfarfod â rhieni Craffu ar ddata (lle y bo'n berthnasol) Craffu ar gofnodion dysgu proffesiynol Craffu ar ddogfennau'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar